## FFURFLEN ASESU EFFAITH AR Y GYMRAEG

Diben y ffurflen Asesu Effaith ar y Gymraeg yw galluogi Cyngor Rhondda Cynon Taf i ystyried egwyddorion a gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 er mwyn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

**Cam 1 - Casglu Gwybodaeth**

**NODER:** Wrth i chi gwblhau'r asesiad yma, bydd gofyn i chi gyflwyno **tystiolaeth i ategu'ch sylwadau**. Gweler Canllawiau Asesu Effaith ar y Gymraeg i gael rhagor o wybodaeth am ffynonellau data.

| | |
|---|---|
| **Enw'r Cynnig:** | Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol a Chynllun Gweithredu |
| **Adran** | Gwasanaethau Rheng Flaen |
| **Cyfarwyddwr Gwasanaeth** | Roger Waters |
| **Swyddog sy'n llenwi'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg** | Daniel Mathias |
| **E-bost** | Daniel.Mathias@rctcbc.gov.uk |
| **Ffôn** | 01443281107 |
| **Disgrifiad Cryno** | Cyhoeddwyd ail fersiwn y Strategaeth Genedlaethol ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, sy’n disodli fersiwn 2011, gan Weinidogion Cymru ym mis Hydref 2020. Sbardunodd cyhoeddi’r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru y gofynion o dan Adran 10 (5) o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i’r Cyngor fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (ALlLlA) adolygu ei Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol a chyhoeddi fersiwn diwygiedig o fewn yr amserlen a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.<br><br>O dan adran 10 o’r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, rhaid i'r Cyngor “ddatblygu, cynnal, cymhwyso a monitro strategaeth ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol”. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf:<br><br>• sicrhau bod y Strategaeth yn gyson â'r Strategaeth Genedlaethol |

| | |
|---|---|
| | • ymgynghori ag awdurdodau rheoli risg eraill a'r cyhoedd ar y Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol<br>• cyhoeddi crynodeb o'i Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol<br>• ystyried cyhoeddi canllawiau ar gymhwyso'r Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol<br>• cyflwyno drafft o’r Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol i Weinidogion Cymru i’w adolygu<br>• Mae modd i Lywodraeth Cymru (LlC) ei gymeradwyo gydag addasiadau neu heb addasiadau neu ei wrthod.<br><br>Ym mis Ionawr 2013, cyhoeddodd y Cyngor ei Strategaeth gychwynnol, yn nodi’r dull trosfwaol o reoli perygl llifogydd lleol. Mae'r Strategaeth yn diffinio pwy yw'r Awdurdodau Rheoli Risg, beth yw eu swyddogaeth a beth yw eu cyfrifoldebau. Mae'r Strategaeth yn ymhelaethu ar yr Amcanion Lleol a'r Mesurau sy'n cael eu gweithredu dros y tymor byr, canolig a hir i reoli perygl llifogydd o ffynonellau lleol (cyrsiau dŵr cyffredin, dŵr wyneb a dŵr daear) yn ardal yr awdurdod.<br><br>Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor baratoi Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd, o dan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009. Cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Rheoli Perygl Llifogydd ym mis Tachwedd 2015[1] yn unol â Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009. Datblygodd y Cynllun yr amcanion a’r camau gweithredu lefel uchel a amlinellwyd yn ein Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol 2013 yn gynllun manwl ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol yn ein cymunedau.<br><br>Er bod y Cyngor wedi cyhoeddi'r Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol a'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd ar wahân yn flaenorol, bydd y Strategaeth ddiwygiedig yn cyfuno'r ddwy ddogfen yn un ddogfen. Bydd hyn yn lleihau cymhlethdod ac yn galluogi'r ALlLlA i gyfathrebu a rheoli perygl llifogydd lleol yn fwy effeithiol.<br><br>Mae'r Strategaeth ddiwygiedig yma a'r Cynllun Gweithredu (a elwid gynt yn Gynllun Rheoli Perygl Llifogydd) yn adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o'r Strategaeth gyntaf. Bydd y strategaeth yn nodi sut y bydd llifogydd o ffynonellau lleol yn cael eu rheoli ledled RhCT, yn gyson â’r amcanion, mesurau a’r polisïau a’r ddeddfwriaeth gysylltiedig a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol a gyhoeddwyd yn 2020. |
| **Dyddiad** | 08/06/2023 |

[1] Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd, Tachwedd 2015

| | |
|---|---|
| **Nodwch ar bwy mae'r cynnig yma'n effeithio: (Defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr, cymuned ehangach)** | Bydd y Strategaeth yn effeithio ar bawb o fewn ffiniau awdurdodau unedol, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr, cymuned ehangach. |
| **Beth yw nodau'r polisi, a sut mae'r rhain yn berthnasol i'r Gymraeg?** | Rhaid i Strategaeth ddiwygiedig y Cyngor alinio â nod ac amcanion y Strategaeth Genedlaethol. Nod y Strategaeth Genedlaethol yw '*lleihau'r peryglon i bobl a chymunedau yn sgil llifogydd ac erydu arfordirol*'. Nod y 5 amcan craidd yw hwyluso hyn. Dyma'r amcanion:<br>1. Gwella ein dealltwriaeth o risg a sut rydyn ni'n cyfathrebu amdano<br>2. Parodrwydd a meithrin gwytnwch<br>3. Blaenoriaethu buddsoddiad yn y cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf<br>4. Atal mwy o bobl rhag dod yn agored i risg<br>5. Darparu ymateb effeithiol a pharhaus.<br><br>Er mwyn cyflawni nod ac amcanion y Strategaeth Genedlaethol, mae'r Cyngor wedi nodi 13 o amcanion strategol lleol a amlinellir yn Adran 6 o'r Strategaeth ddiwygiedig. Mae'r amcanion strategol yn parhau'n ddigyfnewid i raddau helaeth ers Strategaeth 2013, ond mae gwell hyrwyddiad ar gyfer codi ymwybyddiaeth a gwella cyfathrebu ynghylch perygl llifogydd i gymunedau. Adlewyrchir hyn yn amcanion newydd y Strategaeth Genedlaethol.<br><br>1) Lleihau trallod trwy leihau nifer y bobl sy'n agored i berygl llifogydd.<br><br>2) Lleihau aflonyddwch yn y gymuned drwy leihau nifer yr adeiladau preswyl a masnachol sydd mewn perygl o gael eu heffeithio gan lifogydd.<br><br>3) Lleihau perygl i fywyd drwy leihau nifer y bobl sy'n cael eu heffeithio gan beryglon gan lifogydd dwfn a chyflym.<br><br>4) Lleihau amhariad gan dywydd garw i seilwaith hanfodol a gwasanaethau hanfodol.<br><br>5) Gwella neu beidio â chael effaith andwyol ar ansawdd y dŵr. |

RHONDDA CYNON TAF

| | |
|---|---|
| | 6) Nodi cyfleoedd sy'n gweithio gyda phrosesau naturiol i leihau'r perygl o lifogydd.<br><br>7) Cynnal, neu wella statws Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Safleoedd Pwysig o ran Natur a Chadwraeth a chyfrannu at Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol RhCT.<br><br>8) Gwella ein dealltwriaeth o berygl llifogydd lleol yn RhCT a sut mae modd i'r perygl hwn gael ei effeithio gan newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.<br><br>9) Datblygu offer cyfathrebu effeithiol i rannu gwybodaeth a gwella ymwybyddiaeth unigolion a chymunedau o beryglon llifogydd lleol a sut mae modd eu rheoli'n rhagweithiol.<br><br>10) Gwella gallu unigolion a chymunedau i baratoi ac ymateb i beryglon llifogydd ac i adfer yn dilyn llifogydd.<br><br>11) Sicrhau bod y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Rheoli Risg a rhanddeiliaid eraill i reoli perygl llifogydd yn gyfannol.<br><br>12) Sicrhau bod swyddogaethau rheoli perygl llifogydd yn cael eu hystyried a’u cyflawni mewn ffordd gynaliadwy.<br><br>13) Sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi ar gyfer cynlluniau rheoli perygl llifogydd yn cael eu blaenoriaethu gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg.<br><br>Er bod y nodau yma ddim yn ymwneud yn uniongyrchol â’r Gymraeg, bydd manteision anuniongyrchol. Er enghraifft, '*Amcan 9: Bydd datblygu offer cyfathrebu effeithiol i rannu gwybodaeth a gwella ymwybyddiaeth unigolion a chymunedau o beryglon llifogydd lleol*', yn rhoi'r cyfle i gyfathrebu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o heriau pwysig megis llifogydd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn sicrhau bod y Gymraeg ddim yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy gydol oes y Strategaeth yma. |
| **Pwy fydd yn elwa? / Oes modd i'r polisi effeithio ar grwpiau Cymraeg? Os felly, rhestrwch nhw yma.** | Strategaeth ar gyfer y sir gyfan yw'r Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol, felly bydd o fudd i'r gymuned ehangach, yn enwedig y rhai fydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y Strategaeth, megis trigolion a pherchnogion busnesau sy'n byw mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd. |
| **Proffil ieithyddol cyfredol yr ardal(oedd) ddaearyddol dan sylw** | Mae ffigurau Cyfrifiad 2021 ynghylch y Gymraeg yn dangos bod canran siaradwyr Cymraeg ledled Cymru wedi gostwng i 17.8%. Serch hynny, gwelodd Rhondda Cynon Taf gynnydd bychan gyda chanran poblogaeth y Fwrdeistref Sirol sy’n gallu siarad Cymraeg yn codi o 12.3% i 12.4%. |

RHONDDA CYNON TAF

| | |
|---|---|
| | Mae data'n dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf wedi cynyddu o 27,779 i 28,556, sef cynnydd o 2.8%. Yn wir, Rhondda Cynon Taf oedd un o bedwar Awdurdod Lleol yng Nghymru yn unig i weld cynnydd yng nghanran ei siaradwyr Cymraeg. Y lleill oedd Caerdydd, Bro Morgannwg a Merthyr Tudful. Mae pob un o'r awdurdodau lleol yma'n fwrdeistrefi sirol cyfagos. Efallai bod hynny'n dangos bod ein rhanbarth ni'n gweld rhai tueddiadau cadarnhaol o ran cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, ac y gallai'r cynnydd yma arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth i ddata pellach, manylach, o'r Cyfrifiad ar gyfer Rhondda Cynon Taf ddod i'r fei, (e.e. data LSOA), bydd angen i ni ystyried pa effaith y gallai ei chael ar y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu. |
| **Data neu ymchwil perthnasol arall** | Y prif strategaethau a pholisïau sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol yw:<br><br>**<u>Safonau</u>**<br><br>- Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol 2020<br>- Polisi Cynllunio Cymru 2021<br>- Nodyn Cyngor Technegol 15<br>- Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010<br>- Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009<br>- Asesiad Cychwynnol o'r Bygythiad Llifogydd 2011 a 2018<br>- Mapiau Perygl Llifogydd a Risg 2013 a 2020<br>- Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd diweddaraf CNC, 2023<br><br>**<u>Rhanbarthol</u>**<br><br>- AA/CNC Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren<br><br>**<u>Lleol</u>**<br><br>- Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor<br>- Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd<br>- Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol RhCT 2013<br>- Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd RhCT 2015 |

## SUT MAE'R STRATEGAETH YMA'N CYSYLLTU Â CHYNLLUNIAU STRATEGOL ERAILL Y CYNGOR

- **Cynllun Corfforaethol Cyngor Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2020-2024 - 'Gwneud Gwahaniaeth'**: Mae'n nodi blaenoriaethau'r Awdurdod, yn cyfeirio'r hyn y mae'n ei wneud a sut mae'n defnyddio ei adnoddau fel bod y Cyngor yn gallu ymdopi â heriau'r dyfodol yn well. Gweledigaeth y cynllun yw *"i Rondda Cynon Taf fod y lle gorau yng Nghymru i fyw, gweithio a chwarae ynddo, lle mae pobl a busnesau yn annibynnol, yn iach ac yn llewyrchus."* Mae amcanion, mesurau a chamau gweithredu'r Strategaeth Leol ddiwygiedig yn cyd-fynd â'r brif weledigaeth a blaenoriaethau a amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol.

- **Strategaeth Newid Hinsawdd Cyngor Rhondda Cynon Taf, 'Rhondda Cynon Taf Hinsawdd Ystyriol'**: Mae'n darparu fframwaith i gwrdd â thargedau corfforaethol ac ymrwymiadau i leihau allyriadau carbon yn RhCT trwy gyflawni Ymrwymiadau Hinsawdd. Mae rheoli perygl llifogydd wedi'i nodi fel un o Ymrwymiadau Hinsawdd y Cyngor ac mae nifer o gynlluniau a phrosesau i reoli perygl llifogydd a chyflawni yn erbyn y Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen. Mae’r rhain yn cynnwys ymchwilio a hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio prosesau naturiol fel Rheoli Llifogydd yn Naturiol a seilwaith gwyrdd i leihau perygl llifogydd.

- **Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**: Mae'n darparu cynllun hirdymor ar gyfer datblygiad yn RhCT. Defnyddir ef yn bennaf i gefnogi penderfyniadau buddsoddi a phenderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae’r CDLl yn cynnwys polisïau penodol sy’n nodi sut y dylid ystyried pob cynnig datblygu arall mewn perthynas â pherygl llifogydd, er enghraifft, gan gynnwys meini prawf sy’n ceisio sicrhau na chaniateir datblygiadau sy’n agored iawn i niwed neu wasanaethau brys mewn ardaloedd risg uchel. Mae'r Strategaeth Leol yma'n cefnogi cyflawni CDLl RhCT, yn ogystal â pholisi a chanllawiau cenedlaethol allweddol mewn perthynas â llifogydd a datblygu.

- **Cynllun Bioamrywiaeth Lleol y Cyngor**: Cynllun gweithredu adfer natur ar gyfer RhCT sy'n canolbwyntio ar y camau sydd eu hangen i helpu bywyd gwyllt i ffynnu yn RhCT. Mae bioamrywiaeth wedi bod yn ystyriaeth annatod wrth ddatblygu amcanion, mesurau a gweithredoedd y Strategaeth Leol yma.

| | |
|---|---|
| | - **Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd RhCT 2013 a Chynllun Rheoli Perygl Llifogydd 2015**: Cyhoeddwyd Strategaeth Leol flaenorol yr Awdurdod yn 2013 yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Genedlaethol gychwynnol Llywodraeth Cymru yn 2011. Cyhoeddwyd Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd cychwynnol RhCT yn 2015 ac roedd yn amlinellu sut roedd yr Awdurdod yn bwriadu cyflawni amcanion a mesurau'r Strategaeth Leol trwy gyflawni camau gweithredu. Mae datblygu’r Strategaeth Leol a’r Cynllun Gweithredu yma'n adeiladu ar yr amcanion, mesurau a chamau gweithredu gwreiddiol i reoli perygl llifogydd lleol yn RhCT. Serch hynny, mae gwelliannau mewn mapiau/setiau data perygl llifogydd cenedlaethol, ynghyd â digwyddiadau llifogydd diweddar wedi galluogi'r Cyngor i wella ei Strategaeth Leol a Chynllun Gweithredu i adlewyrchu'r gwelliannau yma mewn gwybodaeth a dealltwriaeth. |

**Cam 2 – Asesu Effaith**

Yma mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau rydych chi'n eu cymryd i wella. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r cyfleoedd i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a manteisio ar wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn israddol i'r hyn sydd ar gael i'r rhai sy'n dewis gwneud hynny yn Saesneg, yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Sylwch fod asesiad effaith ar wahân ar gyfer cydraddoldeb a'r ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol y mae'n rhaid eu cwblhau hefyd ar gyfer cynigion polisi.

Cofiwch y gallai effeithiau cadarnhaol i rai grwpiau fod yn niweidiol i eraill - hyd yn oed ymhlith grwpiau Cymraeg. Ystyriwch yr effeithiau ar wahanol grwpiau. Er enghraifft, mae'n bosibl bod cynnig o fudd i ddysgwyr Cymraeg, ond nid i siaradwyr Cymraeg.

Mae Asesiadau blaenorol o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg i'w gweld trwy glicio yma.

**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?**

| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gennych chi i ategu'r farn hon?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu’n well at effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**<br><br>e.e. staff, trigolion ac ymwelwyr<br><br>Hawliau siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith | Cadarnhaol | Bydd y Strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg drwy ddarparu cyfleoedd i hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg yn Sector Rheoli Perygl Llifogydd RhCT. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth gyflawni Amcan 9 o’r Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol: 'Datblygu offer cyfathrebu effeithiol i rannu gwybodaeth a gwella ymwybyddiaeth unigolion a chymunedau o beryglon llifogydd lleol a sut mae modd eu rheoli'n rhagweithiol'.<br><br>Bydd yr holl ddogfennau a chyfathrebiad gan y Cyngor yn cael eu cynhyrchu a’u darparu yn Gymraeg i sicrhau bod y Gymraeg ddim yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg.<br><br>Yn ogystal, mae siaradwyr Cymraeg yn gweithio'n rhan o'r garfan Rheoli Perygl Llifogydd. Wrth wneud y defnydd gorau o'r Gymraeg wrth gyflawni'r Strategaeth Leol, bydd y maes gwasanaeth yn datblygu cynllun Dysgu a Datblygu sy'n ystyried y Gymraeg ynghyd â hyfforddiant | Bydd dogfennau a chyfathrebu yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn unol â Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg y Cyngor.<br><br>Mae rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer hyfforddiant yn y Gymraeg. Mae hyn wedi'i nodi yn y Cynllun Darparu Gwasanaeth Prosiectau Strategol yr adroddir arno'n flynyddol.<br><br>Bydd cyflawni’r Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol yn cyfrannu at bob un o saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015, gan gynnwys:<br>• Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu, drwy greu cymdeithas sy’n gallu gwrthsefyll effeithiau llifogydd a newid yn yr hinsawdd, a thrwy hynny hyrwyddo a gwarchod diwylliant, treftadaeth a’r Gymraeg. | Er mwyn cyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol, bydd y Cyngor yn gweithio gydag Awdurdodau Rheoli Risg, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill i sicrhau eu bod nhw'n gwybod bod y Cyngor yn cynnig cyfathrebu, gwybodaeth ac adnoddau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy amrywiol ddulliau, gan gynnwys hyrwyddo offer cyfathrebu megis y wefan rheoli perygl llifogydd, yn ogystal â gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer datblygu cynlluniau lliniaru llifogydd cymunedol. |

RHONDDA CYNON TAF

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | technegol sy'n benodol i'r gwasanaeth. Bydd hyn o fudd i'r Gymraeg er enghraifft, mae modd delio ag ymholiadau neu ohebiaeth ynglŷn â'r strategaeth neu ei hallbynnau trwy gyfrwng y Gymraeg os oes angen. | | |

**<u>Cam 2 – Asesu Effaith</u>**

**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?**

| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gennych chi i ategu'r farn hon?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|---|---|
| **Niferoedd a / neu ganrannau'r siaradwyr Cymraeg** e.e. Cyfleoedd Addysg / Astudio Cyfrwng Cymraeg. Cysylltiadau â Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru / Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd Cyngor Rhondda Cynon Taf | Cadarnhaol | Tra bydd yr holl gyfathrebu, deunydd hyrwyddo a gwybodaeth sy'n berthnasol i'r Strategaeth yn cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg yn gyntaf, dydy'r strategaeth ddim yn cefnogi nac yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn RhCT yn uniongyrchol. Felly, ni ddisgwylir i'r Strategaeth gael unrhyw effaith ar nifer y siaradwyr Cymraeg. | Dd/B | Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle drwy fynd ati'n frwd i annog cyrsiau hyfforddi Cymraeg i aelodau staff. Bydd hyn yn meithrin hyder a sgiliau ein staff ond hefyd yn cynyddu'r ystod o wasanaethau sy'n cael eu cynnig i siaradwyr Cymraeg o ran rheoli perygl llifogydd. |
| **Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg** e.e. statws, defnyddio Gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg yn rhan o | Cadarnhaol | Bydd cyfathrebu gwybodaeth ac adnoddau yn cynnal agwedd ragweithiol tuag at y Gymraeg. Bydd hyn yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg | Drwy sicrhau bod y Strategaeth a holl allbynnau'r Strategaeth yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg, mae mwy o siawns y bydd unrhyw | Bydd aelodau o staff yn manteisio ar y cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg wrth ymgysylltu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| fywyd beunyddiol yn y gwaith ac yn y gymuned<br><br>Mynd ati'n weithredol i annog a hyrwyddo defnydd o'n gwasanaethau Cymraeg i weld cynnydd yn y galw dros amser | | ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau. | un sy'n ymwneud â'r Strategaeth mewn rhyw ffordd yn cael ei ysbrydoli neu deimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg. | gydag aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill, dros e-bost, y cyfryngau cymdeithasol neu wyneb yn wyneb. Bydd cymorth ar ôl llifogydd hefyd yn cael ei gynnig yn rhagweithiol yn y Gymraeg er mwyn sicrhau parhad.<br><br>Mae rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer hyfforddiant yn y Gymraeg yn y maes gwasanaeth. Mae hyn wedi'i nodi yn y Cynllun Darparu Gwasanaeth Prosiectau Strategol yr adroddir arno'n flynyddol. Mae hyn yn helpu i gefnogi cyfathrebu a defnyddio'r Gymraeg yn yr Adran Rheoli Perygl Llifogydd. |

RHONDDA CYNON TAF

| **Cam 2 – Asesu Effaith**<br><br>**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gennych chi i ategu'r farn hon?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
| **Cydymffurfio â [Safonau Cymraeg Statudol y Cyngor]**<br>e.e.<br>cynyddu neu leihau gallu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Ystyried hawliau siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith. | Cadarnhaol | Bydd datblygu a chyflwyno'r Strategaeth yn cydymffurfio â safonau Cymraeg statudol y Cyngor, gan gynnwys safonau 6, 61, 62, 63, 89 a 145 sy'n ymwneud â gohebiaeth a darparu deunyddiau hyrwyddo yn Gymraeg, gan sicrhau bod y fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin heb fod yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. | Bydd cynnydd mewn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei ddangos gan yr offer cyfathrebu gwell sydd ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg o ganlyniad i'r Strategaeth. | Mae rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer hyfforddiant yn y Gymraeg yn y maes gwasanaeth. Mae hyn wedi'i nodi yn y Cynllun Darparu Gwasanaeth Prosiectau Strategol yr adroddir arno'n flynyddol. Mae hyn yn helpu i gefnogi cyfathrebu a defnyddio'r Gymraeg yn yr Adran Rheoli Perygl Llifogydd. Mae hefyd yn darparu cyfleoedd i staff ymgysylltu â'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Rhaid i'r Cyngor hefyd sicrhau bod unrhyw bartneriaid allanol neu drydydd parti yn gwybod am rwymedigaethau'r Cyngor o ran cydymffurfio â'r Safonau. | | |
| **Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** | Cadarnhaol | Bydd y strategaeth ei hun, ynghyd â chyfathrebu gwybodaeth ac adnoddau perthnasol yn cynnal agwedd ragweithiol tuag at y Gymraeg, gan olygu na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Dd/B | Dd/B |

**Cam 3 – Gwella'r cynnig**

Ar ôl rhestru camau gweithredu yn adran 2 a allai liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol – nodwch isod pa rai y byddwch chi'n eu cynnwys yn y cynnig polisi a phwy fydd yn gyfrifol amdanyn nhw.

Ystyriwch hefyd a yw'r cynnig yn angenrheidiol? A fyddai modd bodloni'r galw heb unrhyw ddatblygiadau newydd? A fyddai modd defnyddio darpariaeth arall sy'n bodoli eisoes? Ble dylai'r datblygiad fod?

| Beth rydych chi'n mynd i'w wneud? | Pryd ydych chi'n mynd i'w wneud? | Pwy sy'n gyfrifol? |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Gwella'r cyfathrebu ynghylch perygl llifogydd a rheoli perygl llifogydd yn Gymraeg drwy adnoddau ar-lein a gweithgareddau ymgysylltu/ymgynghori â'r cyhoedd.<br><br>Cysylltir â Gwasanaethau Cyfieithu i sicrhau bod y strategaeth yn cael ei chyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg yn barod i'w chyhoeddi. | Mae gwella cyfathrebu ynghylch perygl llifogydd yn amcan yn y Strategaeth Leol. Unwaith y caiff ei gymeradwyo, disgwylir i'r Awdurdod adrodd ynglŷn â chynnydd bob blwyddyn.<br><br>Bydd y Strategaeth ei hun yn cael ei chyfieithu cyn ei chyhoeddi ym mis Mawrth 2024. | Carfan Rheoli Perygl Llifogydd RhCT<br><br>Carfan Cyfathrebu a'r Wasg RhCT |
| Cynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu i aelodau'r garfan fel bod modd iddyn nhw gyrraedd lefel sylfaenol/rhugl yn y Gymraeg fel bod modd ei defnyddio yn y garfan. | Mae annog y defnydd o'r Gymraeg eisoes wedi'i nodi fel gofyniad i'r garfan Rheoli Perygl Llifogydd ddatblygu a gwella yn y Cynllun Darparu Gwasanaeth Prosiectau Strategol yr | Carfan Rheoli Perygl Llifogydd RhCT |

<table>
<tr><td></td><td>adroddir arno'n flynyddol.</td><td></td></tr>
<tr><td>Hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg achlysurol yn y garfan a hyrwyddo diwylliant sy'n cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg.</td><td>Mae gwella cyfathrebu ynghylch perygl llifogydd yn amcan yn y Strategaeth Leol. Unwaith iddo gael ei gymeradwyo, disgwylir i'r Awdurdod adrodd ynglŷn â chynnydd bob blwyddyn.</td><td>Carfan Rheoli Perygl Llifogydd RhCT</td></tr>
<tr><td colspan="3">Os yw ffyrdd o leihau'r effaith wedi cael eu nodi ond dydyn nhw ddim yn bosibl, esboniwch pam. Rhowch ddigon o fanylion am ddata neu ymchwil sydd wedi arwain at eich rhesymu.</td></tr>
<tr><td>Beth gafodd ei nodi?</td><td colspan="2">Pam nad yw'n bosibl?</td></tr>
<tr><td>Dd/B</td><td colspan="2">Dd/B</td></tr>
</table>

| **Cam 4 – Adolygu**<br><br>Ar gyfer pob cynnig polisi, p'un a yw'n Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol ai peidio, mae'n ofynnol ichi anfon yr asesiad yma ymlaen at wasanaethau Cymraeg – SwyddogIaith@rctcbc.gov.uk a'r garfan Ymgynghori ac Ymgysylltu – ymgynghoriad@rctcbc.gov.uk yn y lle cyntaf i gael rhywfaint o arweiniad ac adborth cychwynnol.<br><br>Yn rhan o'r Broses Asesu Effaith ar y Gymraeg, Cydraddoldeb a Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol, dylai pob cynnig sy'n diwallu'r diffiniad o Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol gael eu cyflwyno gerbron y Panel Adolygu Swyddogion. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch adroddiad gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet / Uwch Reolwyr y Cyngor.<br><br>Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol Strategol, anfonwch eich asesiad effaith sydd wedi'i gwblhau (Camau 1>6), ynghyd â chynnig/adroddiad polisi a'r adroddiad ymgynghori i'r cyfeiriad e-bost BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. Darllenwch ein dogfen ganllaw i gael rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol Sylweddol.<br><br>Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon fel y gallwn ddangos sut rydyn ni wedi ystyried ac ymgorffori ystyriaethau cynaliadwy o ran y Gymraeg lle bynnag y bo modd. Sicrhewch eich bod chi'n diweddaru'r adrannau perthnasol isod ar y cyd â'r adrannau perthnasol. | | |
|---|---|---|
| **Sylwadau'r Uned Gwasanaethau Cymraeg** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn adborth gan yr Uned Gwasanaethau Cymraeg** |
| Mae Gwasanaethau Cymraeg yn croesawu'r cynigion a wnaed yn yr Asesiad Effaith yma mewn perthynas â'r Gymraeg a natur gynhwysfawr yr asesiad. Serch hynny, dim ond ychydig o fân newidiadau sydd i'w gwneud.<br><br>Yn gyntaf oll, mae gennym ni erbyn hyn baragraff safonol ar gyfer y data sy'n deillio o Gyfrifiad 2021 ar gyfer pob Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg rydyn ni'n cynghori swyddogion i'w ddefnyddio.<br><br>Rydyn ni hefyd yn cynghori rhai mân newidiadau o ran yr iaith sy'n cael ei defnyddio mewn rhai cynigion. Diwygiwch yn unol â'r cyfarwyddiadau. | 28/06/2023 | Mae sylwadau a ddarparwyd gan y Gwasanaethau Cymraeg wedi'u gweithredu. |

| | | |
|---|---|---|
| Rydyn ni hefyd am sicrhau bod unrhyw bartneriaid allanol neu drydydd parti sy'n ymwneud â'r strategaeth yn gwybod am ein rhwymedigaethau ni a'u rhwymedigaethau nhw o ran cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.<br><br>Er mwyn cryfhau rhai o'r cynigion ymhellach, rydyn ni'n argymell rhoi rhagor o fanylion o ran pennu safonau penodol.<br><br>Yn olaf, hoffwn ni weld hysbysiad y bydd unrhyw gymorth ar ôl llifogydd hefyd yn cael ei gynnig yn Gymraeg. | | |
| **Sylwadau Swyddogion y Panel Adolygu** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw newidiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau gan Swyddogion y Panel Adolygu** |
| | | |
| **Sylwadau'r Adran Ymgynghori** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad** |
| | | |
| **<u>Cam 5 – Monitro, Gwerthuso ac Adolygu</u>**<br><br>Sut byddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig, a gyda phwy? | | |
| Yn ei swyddogaeth fel yr ALlLlA, mae'r Cyngor yn gyfrifol am fonitro gweithrediad y Strategaeth Leol a'r Cynllun Gweithredu. Mae hyn yn cynnwys monitro ei weithgareddau ei hun a'r rhai Awdurdodau Rheoli Risg eraill. | | |

RHONDDA CYNON TAF

Bydd cyflawni'r Cynllun Gweithredu Llifogydd y manylir arno yn Atodiad A y Strategaeth Leol yn cael ei fonitro'n flynyddol. Cyhoeddir adroddiad cynnydd ar gyflawni camau gweithredu bob blwyddyn i fonitro cynnydd yn erbyn amcanion a mesurau'r Strategaeth Leol.

Bydd y Cynllun Gweithredu Llifogydd hefyd yn cael ei ddiweddaru bob 2 flynedd i adlewyrchu cyflawniad parhaus yr ALlLlA yn erbyn amcanion a mesurau'r Strategaeth Leol.

Bydd darpariaeth gweithgareddau craidd RhCT, h.y. gweithgareddau o ddydd i ddydd, yn cael ei fonitro bob chwarter yn y Cynllun Darparu Gwasanaeth sy'n cael ei fonitro gan Garfan Cyflawniad y Cyngor. Bydd cyflawni gweithgareddau craidd yr ALlLlA yn rhan annatod o ddarpariaeth yr Awdurdod yn erbyn yr amcanion strategol.

**Cam 6 – Crynodeb o'r Effeithiau gan y Cynnig**

Darparwch grynodeb o'r asesiad effaith isod. Yn y crynodeb, rhaid cynnwys rhai o'r prif effeithiau cadarnhaol a negyddol ynghyd â throsolwg o'r camau gweithredu ers yr asesiad effaith a gafodd eu cymryd i gyfrannu at effeithiau mwy cadarnhaol yn well. Dylai'r crynodeb yma gael ei gynnwys yn adran Ystyriaethau o'r Gymraeg yn nhempled adroddiad Uwch Reolwyr y Cyngor/y Cabinet. Dydy hi ddim yn addas ysgrifennu 'gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad x' yn unig yng nghorff yr adroddiad. Rhaid i'r asesiad effaith gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad.

*Cwblhawyd Asesiad Effaith ar y Gymraeg ac mae'r prif ganfyddiadau fel a ganlyn -*

Rhaid i gyrff cyhoeddus weithio i gyflawni pob un o'r saith nod llesiant a roddwyd ar waith gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gyda chyflawni 'diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yn un o'r saith nod. Uchelgais Llywodraeth Cymru yw gweld nifer y bobl sy'n gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg yn cyrraedd miliwn erbyn 2050. Gweler Strategaeth y Gymraeg: Cymraeg 2050 am ragor o wybodaeth. Mae'r Cyngor yn bwriadu cefnogi'r uchelgais yma drwy ddarparu'r amodau i hwyluso cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg.

O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gan y Cyngor ddyletswydd i gydymffurfio â safonau penodol o ran darparu gwasanaethau Cymraeg. Er mwyn sicrhau ein bod ni'n bodloni gofynion y Mesur, rydyn ni wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg i asesu effeithiau tebygol (neu wirioneddol) y Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol a'r Cynllun Gweithredu (sy'n disodli fersiwn flaenorol 2013) ar y Gymraeg ar ein gweithlu ac yn y gymuned, fel bod modd i ni liniaru unrhyw effeithiau negyddol a gwella'r effeithiau cadarnhaol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yn unol â Strategaeth Hybu'r Gymraeg y Cyngor, bydd y Strategaeth Leol yn sicrhau bod arwyddion dwyieithog, Cymraeg yn gyntaf, a gwasanaethau Cymraeg ar gael ar yr holl offer cyfathrebu ac adnoddau a ddefnyddir i hyrwyddo rheoli perygl llifogydd gan y Cyngor ledled y Fwrdeistref Sirol. | | | |
| **Cam 7 – Cymeradwyo** | | | |
| **Enw'r Swyddog sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg** | Daniel Mathias | **Enw Cyfarwyddwr Gwasanaeth:** | Stephen Williams |
| **Swydd** | Swyddog Graddedig – Perygl Llifogydd | **Rydw i'n argymell bod y cynnig: (Tynnwch sylw at y penderfyniad)** | **Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw newidiadau** |
| | | | **Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu** |
| | | | **Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur ar y Gymraeg** |
| **Llofnod** | Daniel Mathias | **Llofnod y Cyfarwyddwr Gwasanaeth** | Stephen Williams |
| **Dyddiad** | 08/06/2023 | **Dyddiad** | 07/08/2023 |

RHONDDA CYNON TAF